# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**NAFWC 2014 (Papur 6a Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2009-10**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 19 Mai 2010
**Amser:** 07.45
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt: Richard Calvert, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad**

# Adroddiad Blynyddol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

*Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi paratoi'r papur hwn i'w ystyried. Barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi yn dilyn ystyriaeth o'r fath, yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir cyhoeddi na datgelu cynnwys y papur hwn cyn pryd gan y gallai hyn gam-ddylanwadu ar drafodion y Comisiwn.*

## 1. Cyflwyniad a swyddogaeth y Pwyllgor

Mae Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn y Cynulliad yn falch i gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

Swyddogaeth y Pwyllgor yw darparu cyngor, her a sicrwydd i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd cyson a chywir gan sicrhau gwerth am arian o ran defnydd yr adnoddau. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn wedi'u gosod a bod rheolaethau mewnol effeithiol yn weithredol i sicrhau bod risgiau yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

I bob pwrpas, mae'r Pwyllgor yn archwilio ac yn darparu sicrwydd i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:

- yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- y gweithgareddau a gynlluniwyd a chanlyniadau'r archwilio mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan yr archwilio mewnol ac allanol;
- trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Comisiwn gan gynnwys y Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol; a
- pholisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

## 2. Cylch gorchwyl

Pwrpas y Pwyllgor yw cynghori ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae ei delerau, fel y'u gosodir gan y Comisiwn, yn gyson â chanllawiau'r Trysorlys a chânt eu hadolygu gan y Pwyllgor o dro i dro. Mae copi wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad A.

## 3. Aelodau'r pwyllgor ac eraill yn bresennol

Ni newidiodd aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, roedd yn cynnwys:

Richard Calvert (Cadeirydd)
Tim Knighton
Yr Athro Robert Pickard
William Graham AC

Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu ynghyd â staff allweddol y Cynulliad a chynrychiolwyr o'r archwilio mewnol ac allanol. Darperir gwasanaethau ysgrifenyddiaeth gan Uned Gorfforaethol y Cynulliad.

Ym mis Tachwedd 2009, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i newid enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad. Argymhellwyd y newid hwn gan y panel adolygu annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad 'Yn Gywir i Gymru'.

## 4. Gweithgarwch, ystyriaethau a sylwadau'r Pwyllgor

Cyfarfu'r Pwyllgor ar bum achlysur yn ystod y flwyddyn. Ymddangosodd yr eitemau a ganlyn ar yr agenda yn rheolaidd:

- adroddiadau a chynlluniau'r archwilio mewnol;
- adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- materion yn ymwneud â'r archwilio allanol;
- newidiadau i'r gofrestr risg;
- trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol; a'r
- wybodaeth ddiweddaraf ar faterion allweddol.

Yn ychwanegol, ystyriodd y Pwyllgor:

- TG a diogelwch gwybodaeth;
- cynllunio parhad busnes;
- trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol;
- cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2010-11; ac
- effaith adroddiad y panel adolygu annibynnol 'Yn Gywir i Gymru'.

Ar ôl pum cyfarfod, dyma ystyriaethau a sylwadau allweddol y Pwyllgor:

Cyfrifon blynyddol - cyflwynwyd y cyfrifon drafft ar gyfer 2008-09 i'w harchwilio a hynny yn unol â'r amserlen a gytunwyd arni, a chafwyd barn archwilio ddiamod. Bu'r materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei llythyr rheoli dros dro ar gyfer y flwyddyn honno yn destun pryder, ond lleddfwyd y pryderon hynny wedi i'r Comisiwn fynd i'r afael â'r materion hyn yn drylwyr erbyn adeg yr archwilio. Un o'r ffactorau, o ran cwrdd â'r amserlen yn llwyddiannus, oedd y gallu i weithio'n ddwys ar lawer o waith paratoi'r cyfrifon.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu cyfrifon ar gyfer 2009-10 yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd rhan o'r gwaith hyn yn cynnwys ailddatgan a chynrychioli ffigurau cymharol ar gyfer 2008-09 i gyd fynd â safonau archwilio newydd Swyddfa Archwilio Cymru. Yn wreiddiol, mynegodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phryder oherwydd nad oedd tystiolaeth o gynllun priodol ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Roedd hyn yn achosi pryder i'r Pwyllgor ond erbyn hyn mae'r wybodaeth gymharol wedi'i baratoi a'i gyflwyno, a chafwyd cadarnhad gan Swyddfa Archwilio Cymru na fydd unrhyw faterion yn effeithio ar farn yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon 2009-10.

Diogelu gwybodaeth - rhoddwyd mwy o amlygrwydd i ddiogelwch gwybodaeth o ganlyniad i nifer o fethiannau yn y sector gyhoeddus yn ystod 2009. Roedd yn bleser gan y Pwyllgor nodi bod y Comisiwn wedi cytuno i weithredu'r arfer dda a gyhoeddwyd yn Fframwaith Polisi Diogelwch Swyddfa'r Cabinet. Yn ogystal, roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi gan y modd yr aethpwyd ati i godi ymwybyddiaeth gan gynnwys rhoi sylw i'r pwnc hwn o fewn y rhaglen o 'sesiynau sbardun' ar lywodraethu.

Cynllunio parhad busnes - ystyriodd y Pwyllgor gynlluniau parhad busnes y Comisiwn a nodi bod nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r fframwaith yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ddod â'r cynllun i ben ac i sicrhau ei fod yn gadarn drwy ei brofi mewn gwahanol sefyllfaoedd. Byddai'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i sicrhau y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod 2010-11.

Y gyllideb a chyfrifon rheolaeth - ystyriodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2010-11. Roedd yn gefnogol o'r cam a gymerwyd i ail-fformadu'r gyllideb ac, yn benodol, y lefel a'r defnydd a wnaed o'r gronfa. Yn ogystal, cadarnhaodd y Pwyllgor y gwelliannau arfaethedig i'r cyfrif rheolaeth mewnol. Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor ystyried cyllideb y Comisiwn a threfniadau rheolaeth ariannol parhaus.

## 5. Archwilio mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol ar y meysydd a ganlyn:

- System lwfansau'r Aelodau;
- Llywodraethu corfforaethol;
- Monitro perfformiad;
- Rheoli cofnodion;
- Y gyflogres ac adnoddau dynol;
- rheolaethau ariannol allweddol;
- rheoli'r gyllideb ; a
- gweithredu yn sgil archwiliadau blaenorol.

Mae'r adroddiadau hyn yn darparu lefel foddhaol o sicrwydd i'r Pwyllgor am yr amgylchedd rheoli cyffredinol yng Nghomisiwn y Cynulliad. Roedd yn galondid i'r Pwyllgor gael pedwar adroddiad archwilio ar lywodraethu corfforaethol, y gyflogres ac adnoddau dynol, rheolaethau ariannol allweddol a rheolaeth cyllidebol. Roeddynt yn darparu sicrwydd sylweddol. Yn ogystal, roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnydd a wnaed wrth fynd ati i wireddu argymhellion yr adroddiadau archwilio mewnol.

Tua diwedd 2008-09, nododd y Pwyllgor efallai y gallai swyddogaeth yr archwilio mewnol fod yn fwy buddiol, ac anogodd Comisiwn y Cynulliad i ddatblygu ei arbenigedd ei hun o safbwynt archwilio mewnol a sefydlu rhaglen o archwiliadau gwerth ychwanegol. O ganlyniad, crëwyd swydd newydd, ac ym mis Tachwedd 2009, penodwyd Lynne Flux yn Bennaeth ar Archwilio Mewnol y sefydliad. Penderfynwyd mai Rheoli Cyfrifon oedd y testun cyntaf i gael archwiliad gwerth ychwanegol ac ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r archwiliad hwnnw ym mis Chwefror 2010.

Cytunodd y Pwyllgor ar amlinelliad y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2010-13, gan gefnogi'r cynnig i fod yn un rhagweithiol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad i uwch reolwyr, a hynny ar yr un pryd â'r gweithgareddau a'r datblygiadau, ynghyd â chynnal adolygiadau ar ôl y gweithgarwch. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ddarparu'r adnoddau ar gyfer y strategaeth, a hynny'n cynnwys caffael archwilydd allanol ynghyd ag adolygiadau gan y Pennaeth

Archwilio Mewnol. Maent yn cadarnhau'r manteision o gynnwys staff y Cynulliad wrth gyflawni swyddogaeth yr archwiliad.

## 6. Archwilio allanol

Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi bod y berthynas weithio ardderchog rhwng y Comisiwn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau,eu bod wedi adeiladu ar y berthynas honno yn ystod y flwyddyn, a bod y diwylliant sy'n annog heriau adeiladol, yn parhau i fodoli o fewn y berthynas honno.

Mewn ymateb i'r adroddiad 'Yn Gywir i Gymru', cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru elfen ychwanegol i'r profi, fel rhan o'i harchwiliad blynyddol o'r cyfrifon, a hynny drwy archwilio mwy o enghreifftiau o geisiadau treuliau a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad. Bydd y rhaglen yn sicrhau bod sampl o'r taliadau a wnaed i bob Aelod Cynulliad wedi'u harchwilio erbyn etholiad nesaf y Cynulliad. Roedd yn bleser gan y Pwyllgor nodi nad oes unrhyw ddiffygion mawr wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn.

## 7. Rheoli risg

Wrth gyflawni ei rôl o herio rheoli risg o fewn y sefydliad, ystyriodd y Pwyllgor cofrestrau o risgiau strategol a risgiau gweithredol sylweddol gydol y flwyddyn. Yn ychwanegol, ystyriodd y Pwyllgor strategaeth rheoli risg y Comisiwn gan nodi'r cynnydd a wnaed wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth a sefydlu'r broses. Mae'r Pwyllgor yn falch i nodi bod ymrwymiad un o'i aelodau annibynnol yn y mater hwn wedi bod yn ffrwythlon o ran helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac i wella'r broses.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod y broses o reoli risg wedi cyrraedd cyfnod erbyn hyn lle y byddai'n ei alluogi i edrych ar y dystiolaeth ddogfennol o'r newydd gyda'r bwriad o'i leihau ychydig a lleihau'r baich. Dylai hyn gynorthwyo staff i edrych ar y broses yn fwy positif ac o ganlyniad, bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r gwaith o'i sefydlu.

## 8. Datganiad ar rheolaeth fewnol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried datganiadau drafft ar gyfer 2008-09 ym mis Ebrill, a nododd nifer o feysydd lle y gellid eu hymestyn, yn enwedig o safbwynt gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol

Rhyngwladol a'r polisi i ddatblygu sgiliau ariannol ledled y sefydliad. Darparodd y Pwyllgor her allanol yn ystod cyfnod y datganiad dros dro ac roedd hyn yn ddefnyddiol o ran datblygu'r datganiad terfynol.

9. Cyfraniadau gan aelodau eraill y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn mae aelodau'r Pwyllgor wedi darparu cyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys datblygiad prosiectau unigol, newid yn yr hinsawdd, newidiadau i gyllid y llywodraeth a rhaglen newid y Comisiwn.

10. Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Gofynnodd y Pwyllgor i Swyddfa Archwilio Cymru ailgynnal yr e-arolwg a gynhaliwyd yn 2009 er mwyn adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ymateb cadarnhaol a'r gwelliant a fu yn y canfyddiadau o gymharu â'r blynyddoedd cynt, a chytunwyd ar nifer o gamau i wella ei effeithiolrwydd ymhellach gan gynnwys datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol a chanolbwyntio mwy ar atal y risg o dwyll.

11. Edrych Ymlaen

Cytunodd y Pwyllgor ar raglen waith ar gyfer 2010-11. Yn ychwanegol i'r eitemau arferol, (gan gynnwys paratoi cyfrifon 2009-10 ar sail y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol), bydd diddordeb amlwg gan y Pwyllgor yn natblygiad a gweithrediad y gwasanaeth archwilio mewnol newydd, rhoi'r strategaeth archwilio ar waith, a chanlyniad yr archwiliadau gwerth ychwanegol. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn cadw llygad barcud ar reolaeth ariannol y Comisiwn o gofio'r amgylchedd ariannol anodd a fydd yn wynebu'r sector gyhoeddus gyfan. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn monitro prosiect UNO a'r paratoadau ar gyfer y pedwerydd Cynulliad.

12. Casgliad

Ers ffurfio'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2007, rydym wedi gweld cynnydd da o ran adeiladu system effeithiol o lywodraethu corfforaethol, a diwylliant sy'n fwyfwy cryf o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol effeithiol; a chredwn ein bod yn gallu rhoi lefel da o sicrwydd i'r Comisiwn. Adlewyrchir hyn drwy

**gasgliad o gyfraddau archwilio mewnol gwell yn ystod y 12 mis diwethaf, a llai o faterion yn codi mewn perthynas â'r archwilio mewnol. Fodd bynnag, mae gennym heriau sylweddol o'n blaenau, yn enwedig yng nghyswllt gwerth am arian, effeithiolrwydd a chyflwyno systemau newydd. Felly, bydd yn bwysig i Gomisiwn y Cynulliad adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Mae mewn sefyllfa dda i wneud hynny, yn enwedig gan fod y trefniadau newydd ar gyfer archwilio mewnol yn eu lle. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Prif Weithredwr a'i staff yn ystod y cyfnod sydd i ddod.**

**Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r Prif Weithredwr a staff y Cynulliad am ymdrin â'r gwaith mewn modd positif. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i'r archwilwyr mewnol ac allanol am ymgymryd â'u gwaith mewn modd adeiladol a defnyddiol ac i'r Ysgrifenyddiaeth am sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu mewn modd effeithiol.**

**Richard Calvert, Cadeirydd, Cynghorydd Annibynnol
Tim Knighton, Cynghorydd Annibynnol
Professor Robert Pickard, Cynghorydd Annibynnol
William Graham AM, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad**